

**ADRODDIAD Y RHEOLWR GWASANAETHAU GWEINYDDOL A  
DEMOCRATAIDD**

---

**PWNC:  
SAFONAU ARFAETHEDIG MEWN PERTHYNAS Â'R GYMRAEG**

Diben yr adroddiad

Cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y safonau arfaethedig mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cefndir

Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fabwysiadu'r egwyddor o drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. I'r perwyl hwn, roedd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun i ddangos sut fyddent yn rhoi'r egwyddor honno ar waith. Yn 1997 cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oedd yn bod yr adeg honno, a chafodd y Fersiwn Diwygiedig ei gymeradwyo yn 2008. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Monitro blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y Cynllun hwn a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg (i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hyn).

Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan fod y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd y safonau hyn yn graddol gymryd lle'r system bresennol o gynlluniau iaith, y darparwyd ar eu cyfer gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r set gyntaf o safonau yn canolbwyntio ar Gynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Sir yng Nghymru, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a Gweinidogion Cymru. Wrth baratoi'r safonau, cadwyd mewn cof yr egwyddorion a lywiodd y broses o ddatblygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac mae'n cynnwys pum math o safonau:

- Cyflenwi gwasanaethau – math o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg neu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr amgylchiadau canlynol:
  - Pan fydd personau sy'n ddarostyngedig i'r safon yn cyflenwi gwasanaethau i eraill, neu

- Pan fyddant yn delio ag eraill mewn cysylltiad â chyflenwi'r gwasanaethau hynny.
- Llundio polisi – math o ddyletswydd fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i bersonau eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Safon gweithredu – math o ddyletswydd a osodir er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn perthynas â pherson wrth iddo arfer ei swyddogaethau, neu wrth iddo gynnal busnes neu ymgymeriad arall.
- Safon hybu – math o ddyletswydd a osodir mewn perthynas â chymryd camau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach.
- Safon cadw cofnodion – math o ddyletswydd a osodir er mwyn cadw a chynnal manylion ynghylch cydymffurfio â'r pedair safon arall, yn ogystal ag unrhyw gwynion eraill yn ymwneud â'r iaith.

### Amserlen gweithredu

Yn fras, dilynr y broses a nodir isod:

- 6<sup>ed</sup> Ionawr: Hysbysiad Rhagymchwilio a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi y gwneir ymchwiliad safonau yn yr wythnosau sydd i ddod i benderfynu a ddylai “person”<sup>1</sup> fod yn agored i orfod cydymffurfio â'r safonau ac, os felly, pa safonau ddylai fod yn benodol gymwys iddo yntau.
- 27<sup>ain</sup> Ionawr: Ymchwiliad Safonau yn cychwyn. Darperir dogfennau pellach ar y dyddiad hwn fydd yn egluro gweithdrefn yr ymchwiliad a'r dystiolaeth y gofynnir amdani fel rhan o'r ymchwiliad. Wrth gyflawni ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd ystyried yr angen am sicrhau nad yw'r gofynion i bersonau gydymffurfio â safonau yn afresymol nac yn anghymesur.
- 18<sup>fed</sup> Ebrill: Yr Ymchwiliad Safonau yn dod i ben.
- Mai: Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno'r Adroddiad Safonau gerbron Gweinidogion Cymru maes o law ar y casgliadau y daethpwyd iddynt.
- Medi: Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi copi drafft o Safonau'r Gymraeg. Rhaid i Weinidogion Cymru dalu sylw dyledus i Adroddiad y Comisiynydd ar y Safonau wrth benderfynu ai gwneud y safonau'n gymwys i'r sefydliadau dan sylw a sut i wneud hynny.

---

<sup>1</sup> Mae adran 61(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn caniatáu i ymchwiliad safonau gael ei wneud mewn perthynas â pherson penodol, neu grwp o bersonau. Y “person” dan sylw yn yr hysbysiad penodol hwn yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Tachwedd: Y Rheoliadau sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn dod i rym.

31<sup>ain</sup> Ionawr

2015: Cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio. Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi cytuno ar Safonau'r Gymraeg a'u gosod drwy is-ddeddfwriaeth, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio, sy'n nodi pa safon(au) y mae'n ddyletswydd ar sefydliad i gydymffurfio â hwy, ac erbyn pryd y mae disgwyl i'r sefydliad gydymffurfio.

#### Adroddiad Monitro Blynyddol - trefniadau pontio

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar ei berfformiad yn erbyn ei Gynllun Iaith Gymraeg. Hyd nes bod Gweinidogion Cymru wedi pennu Safonau'r Gymraeg, bydd yn dal yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad fel arfer.

#### Ystyriaethau ariannol

Yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad Safonau a Safonau'r Gymraeg fydd yn deillio o'r ymchwiliad.

#### Ystyriaethau Risg

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg gaiff eu pennu, ac mae cosb ariannol os nad yw'n cydymffurfio.

#### Cydymffurfio

Mae'r cynnig yn cydymffurfio â Chanlyniad 8 o'r Strategaeth Gorfforaethol: Cydnabyddir bod yr Awdurdod yn bodloni safonau arferion da o ran llywodraethu, rhoi gwerth am arian, a gwrando ar farn y trigolion, ymwelwyr a phartneriaid.

#### Materion Hawliau Dynol /Cydraddoldeb

Mae'r Awdurdod eisoes wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac y bydd yn parhau i wneud hynny.

#### Arfarnu goblygiadau bioamrywiaeth/ Cynaliadwyedd

Dim goblygiadau.

#### Datganiad ar yr iaith Gymraeg

Mae'r Awdurdod eisoes wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac y bydd yn parhau i wneud hynny.

#### **ARGYMHELLIAD:**

**Bod yr Aelodau yn nodi'r adroddiad.**

Papurau cefndir:

Amrywiol lythyrau oddi wrth Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Mesur Iaith (Cymru) 2011

*(Am ragor o wybodaeth cysyllter os gwelwch yn dda â Janet Evans, Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ar estyniad 4834, neu drwy e-bostio [janete@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:janete@pembrokeshirecoast.org.uk))*

*Awdur: Janet Evans, Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd*